**Dyddiad cyhoeddi** Tachwedd 2011

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

# Triniaeth uwchsain wedi'i llywio gan ddelweddau ar gyfer ffibroidau'r groth

*Mae arweiniad Techlechyd NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio triniaeth uwchsain wedi'i llywio gan ddelweddau yn y GIG i drin merched â ffibroidau'r groth. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio ffibroidau'r groth na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Ceir tystiolaeth i ddangos bod y driniaeth hon yn gweithio yn y tymor byr, er efallai y bydd angen triniaeth bellach ac nid yw'r posibilrwydd o gael beichiogrwydd llwyddiannus yn y dyfodol yn sicr. Ceir cymhlethdodau hysbys, ond mae'r dystiolaeth ynghylch diogelwch yn ddigonol. Felly gellir cynnig y driniaeth hon yn gyffredinol fel opsiwn trin i ferched sydd â ffibroidau'r groth, ar yr amod bod meddygon yn siŵr:

- bod y ferch yn deall beth mae'n ei olygu a'i bod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylid dweud wrth y ferch efallai na chaiff ei symptomau eu lliniaru, y gallant ddychwelyd ac efallai y bydd angen triniaethau pellach arni. Dylid dweud wrthi hefyd bod perygl y caiff y croen ei losgi. Dylid dweud wrth ferched a allai fod am gael baban yn y dyfodol bod effeithiau'r driniaeth ar ffrwythlondeb a beichiogrwydd yn ansicr.

Dylai tîm gofal iechyd sydd â phrofiad o reoli ffibroidau'r groth benderfynu pa ferched ddylai gael cynnig y driniaeth hon. Dylai'r tîm gynnwys gynaecolegydd ac arbenigwr ar ddelweddau. Dim ond meddygon sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i gyflawni'r driniaeth ddylai wneud hynny.

Mae NICE wedi annog rhagor o ymchwil i'r driniaeth hon, gan gynnwys beth sy'n digwydd yn yr hirdymor a'r angen am driniaeth bellach. Mae gwybodaeth am feichiogrwydd ymhlith merched sy'n dewis y driniaeth hon oherwydd eu bod am gynnal neu wella eu ffrwythlondeb yn arbennig o bwysig.

### Sylwadau eraill gan NICE

Nododd NICE fod llawer o ferched am osgoi triniaeth fwy ymwthiol ar gyfer ffibroidau'r groth, hyd yn oed os yw'n fwy tebygol y bydd angen triniaeth bellach arnynt. Nododd y Pwyllgor hefyd fod technegau newydd a gwell ar gyfer y driniaeth hon wrthi'n cael eu datblygu.

*Efallai nad dyma fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer ffibroidau'r groth.*
*Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.*

## Triniaeth uwchsain wedi'i llywio gan ddelweddau ar gyfer ffibroidau'r groth

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw triniaeth 'uwchsain atseiniol magnetig drwy'r croen wedi'i llywio gan ddelweddau i drin ffibroidau'r groth'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch meddyg i gael disgrifiad llawn.

Tyfiannau cyffredin nad ydynt yn ganseraidd (anfalaen) sy'n digwydd yn y groth (yr wterws) yw ffibroidau'r groth. Gallant achosi gwaedu, anymataliaeth wrinol, a theimlad o bwysedd neu boen yn yr abdomen. Gall ffibroidau weithiau hefyd ei gwneud yn anodd i ferched feichiogi neu gario'r beichiogrwydd i'w gyfnod llawn.

Caiff ffibroidau symptomatig eu trin yn aml â hysterectomi, lle caiff y groth gyfan ei thynnu, neu â myomectomi, lle caiff y ffibroidau yn unig eu tynnu. Mae triniaethau eraill yn cynnwys rhwystro'r cyflenwad gwaed i'r ffibroidau neu dynnu leinin y groth.

Mae triniaeth uwchsain wedi'i llywio gan ddelweddau yn dechneg lai ymwthiol sydd wedi'i chynllunio i leihau symptomau ffibroidau. Fel arfer caiff ei chyflawni â'r ferch yn ymwybodol ond wedi'i llonyddu. Caiff tiwb cul (cathetr) ei gosod er mwyn cadw ei phledren yn wag yn ystod y driniaeth. Yn ystod y driniaeth, mae'r ferch yn gorwedd ar ei bol mewn sganiwr arbennig sy'n cyfuno delweddu atseiniol magnetig (MRI) ag uwchsain. Gall roi gwybod i'r gweithredwr os yw'n teimlo unrhyw anesmwythder (er enghraifft, teimlad o losgi neu boen). Gosodir y ddyfais uwchsain ar y croen ar waelod abdomen y ferch. Defnyddir uwchsain pŵer isel yn gyntaf i dargedu'r ffibroid, yna defnyddir uwchsain pŵer uchel i wresogi a dinistrio rhan o'r ffibroid neu'r ffibroid cyfan. Gall y driniaeth bara am hyd at dair awr.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod triniaeth uwchsain wedi'i llywio gan ddelweddau yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

Mae NICE wedi dweud hefyd bod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio?

Nododd astudiaeth o 192 o ferched a gafodd eu trin â'r driniaeth neu â hysterectomi fod y ddwy driniaeth wedi gwella ansawdd bywyd y merched, a bod mwy o welliant chwe mis ar ôl y driniaeth ymhlith y merched a gafodd eu trin â hysterectomi.

Nododd astudiaeth o 40 o gleifion a gafodd y driniaeth welliannau sylweddol o ran difrifoldeb symptomau ac ansawdd bywyd pan archwiliwyd eu cynnydd ar ôl tair blynedd.

Mewn dwy astudiaeth o gyfanswm o 210 o ferched a gafodd y driniaeth, cafodd 15 hysterectomi o fewn blwyddyn o gael y driniaeth.

Nododd astudiaeth o 51 o ferched a feichiogodd ar ôl cael y driniaeth, o blith y 54 o achosion o feichiogi, ganwyd 22 o fabanod, gwnaeth 14 o'r merched gamesgor a therfynwyd saith ar gais y ferch.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r prif ffactorau llwyddiant yw ansawdd bywyd, symptomau'n gwella, osgoi triniaethau pellach a chynnal neu wella ffrwythlondeb.

### Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 192 o ferched, nodwyd bod un allan o'r 109 o ferched a gafodd y driniaeth wedi cael anaf dros dro i'r nerf clunol gan achosi gwendid yn y goes. Yn yr astudiaeth o 80 o ferched a gafodd y driniaeth, cafodd un boen ysgafn dros dro a oedd yn gysylltiedig â'r nerf clunol.

Mewn astudiaeth o 287 o ferched, nodwyd bod 10 allan o 144 o ferched a gafodd y driniaeth rhwng 2003 a 2005 a dwy allan o 143 o ferched a gafodd eu trin rhwng 2005 a 2006 wedi cael llosgiadau i'r croen. Cafodd un ferch a gafodd y driniaeth losg difrifol yn rhan isaf yr abdomen ac roedd angen llawdriniaeth arni.

Roedd angen llawdriniaeth ar un ferch a gafodd y driniaeth i dynnu'r meinwe ffibroid a driniwyd. Cafwyd adroddiad hefyd am ferch a gafodd niwed i'r coluddyn ac roedd angen llawdriniaeth arni.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr o ran egwyddor fod niwed i'r bledren yn broblem bosibl arall.

## Rhagor o wybodaeth am ffibroidau'r groth

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.ukj) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi hefyd. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ffibroidau'r groth, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i [www.nice.org.uk/aboutguidance](http://www.nice.org.uk/aboutguidance)*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â thriniaeth 'uwchsain atseiniol magnetig drwy'r croen wedi'i llywio gan ddelweddau i drin ffibroidau'r groth'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn [www.nice.org.uk/guidance/HTG277](http://www.nice.org.uk/guidance/HTG277)*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8465-7
N2709 November 2011

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2011. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.